

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Hosbis i Blant Tŷ Gobaith

Dyddiad y gweithgarwch: 14 Gorffennaf
2021

Dyddiad cyhoeddi: 18 Awst 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Hosbis i Blant Tŷ Gobaith fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Cafodd Tŷ Gobaith ei chofrestru gyntaf fel ysbyty annibynnol yn 2004. Mae'r hosbis wedi'i chofrestru i ddarparu gofal lliniarol arbenigol i blant a phobl ifanc o fabanod newydd-anedig i 25 oed. Gellir darparu llety i hyd at bum claf ar unrhyw adeg. Y darparwr cofrestredig yw Hope House Children's Hospices, sydd wedi'i leoli yn Swydd Amwythig.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull wedi'i deilwra newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â'r Rheolwr Cofrestredig, sef Pennaeth Gofal Tŷ Gobaith a'r Unigolyn Cyfrifol hefyd,¹ a'r Pennaeth Sicrhau Ansawdd ddydd Mercher 14 Gorffennaf 2021 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am eu gwasanaeth. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- A gaiff y risg o haint ei hasesu a'i rheoli i gadw'r cleifion, yr ymwelwyr a'r staff yn ddiogel?
- Sut mae'r gwasanaeth yn nodi brigadau o achosion / trosglwyddiadau nosocomiaidd o COVID-19 ac yn eu rheoli'n effeithiol?
- A yw'r amgylchedd yn ddiogel i'r staff, y cleifion a'r ymwelwyr?
- Sut mae'r gwasanaeth yn diwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg?
- A yw'r trefniadau rheoli staff yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol?
- Sut mae rheolwyr yr hosbis yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull seiliedig ar hawliau ar waith ym mhob rhan o'r gwasanaeth?

¹Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn gyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall yn y sefydliad sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei reoli.

-
- Pa drefniadau sydd ar waith i sicrhau bod trafodaeth Na Cheisier Dadebru Cardio-Anadlol (DNACPR) wedi cael ei chynnal a bod penderfyniadau yn cael eu gwneud mewn ffordd briodol a sensitif?

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a'r ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Asesiad risg iechyd a diogelwch
- Rhestr wirio iechyd a diogelwch ar gyfer cartref y teulu
- Gweithdrefn Safonol cymorth dros y ffôn i deuluoedd (penodol ar gyfer COVID-19)
- Gweithdrefn Safonol fideo-gynadleda gyda chleifion

Hefyd, holwyd cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym mai dim ond newidiadau bach y bu angen eu gwneud i'r amgylchedd mewn ymateb i COVID-19.

Dywedwyd wrthym fod archwiliadau ac asesiadau risg rheolaidd yn cael eu cynnal i sicrhau diogelwch y cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Mae'r hosbis yn adeilad pwrpasol i blant a phobl ifanc, gyda lolfa i'r oedolion ifanc ac ystafell chwarae/ystafell synhwyraidd i'r plant iau. Mae pob ystafell wely yn ystafell sengl gydag ystafell ymolchi ensuite. Rhoddir yr holl ofal personol mewn ystafelloedd gwely unigol. Caiff dillad gwely ac eitemau gweithgareddau sy'n briodol i oedran y plant eu darparu ym mhob ystafell wely. Caiff pob plentyn ei ystafell ei hun yn ystod ei arhosiad er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio. Mae ystafelloedd gwely ac ardal fyw ar wahân ar gael i'r rhieni neu aelodau'r teulu aros ynddynt. Gellir mynd i holl ystafelloedd gwely'r plant a'r teuluoedd o'r tu allan. Ar ddechrau'r pandemig, dim ond i rieni'r plant a oedd yn derbyn gofal diwedd oes neu gam-i-lawr a theuluoedd y plant a oedd yn derbyn gofal mewn argyfwng yr oedd y llety i deuluoedd ar gael.

Yn ystod cyfnod cynnar y pandemig, dywedwyd wrthym fod Tŷ Gobaith wedi bod yn gweithredu ar hanner ei gapasiti ac mae dim ond dau blentyn ar yr un pryd oedd yn cael llety. Gwnaeth y gwasanaeth ganolbwyntio ar ddarparu gofal i'r plant a'r teuluoedd â'r angen mwyaf yn eu barn nhw, a chafodd gofal seibiant rheolaidd ei ohirio.

Cafodd parthau gweithio coch a gwyrdd eu nodi er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio. Dim ond ymwelwyr hanfodol oedd yn cael caniatâd i fynd i mewn i'r hosbis, gyda'r nifer gofynnol yn unig o staff ar ddyletswydd yn ystod pob sifft. Mae rota wedi'i lunio i'r uwch-aelodau o'r staff gyflenwi bob dydd er mwyn cefnogi'r staff clinigol.

Dywedwyd wrthym fod dau aelod o'r staff yn cael eu neilltuo i bob plentyn fesul sifft. Mae gwisgoedd ar ffurf sgrybs mewn codau lliw wedi'u cyflwyno er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio ac er mwyn gallu nodi rolau'n hawdd, ac mae enw pob aelod o'r staff a'i ddynodiad wedi'u labelu ar y wisg yn ogystal â logo siarad Cymraeg ar gyfer y staff sy'n siarad yr iaith.

Cawsom wybod bod pob ymdrech wedi'i gwneud i gynnwys y plant ac aelodau allweddol o'r teulu yn llawn yn y broses cynllunio gofal . Mae pob cynllun gofal yn cynnwys dogfen 'Popeth Amdana i' sy'n nodi beth sydd o bwys iddynt hwy, eu dymuniadau, hoffterau a chas bethau. Lle y bo'n briodol, mae'r plant ac aelodau allweddol o'r teulu hefyd yn cymryd rhan wrth gynllunio gofal uwch a chwblhau dogfennau dymuniadau i'r dyfodol sy'n cynnwys cyfeiriadau at gynllunio gofal uwch a gofal diwedd oes. Caiff gofal ar ôl marwolaeth ei roi mewn ardal o'r hosbis sydd wedi'i dylunio'n arbennig, o'r enw ystafell Pluen Eira.

Dywedwyd wrthym fod y ddarpariaeth gofal wedi'i dylunio o amgylch y pyramid gofal sy'n canolbwyntio ar ofal diwedd oes fel y flaenoriaeth uchaf, a chan weithio i lawr i ofal seibiant rheolaidd. Mae fframwaith y pyramid yn caniatáu i ofal gael ei roi mewn ffordd amserol ac effeithiol drwy gyfeirio'r adnoddau a'r ymatebion mewn ffordd effeithiol ac amserol.

Mae'r hosbis wedi datblygu gwasanaeth rhithwir sy'n cynnwys therapi chwarae a cherddoriaeth rithwir, cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol rhithwir, clinigau rheoli symptomau a chynlluniau gofal uwch, ac mae teuluoedd yn cael cynnig gweithiwr allweddol i'w cefnogi. Oherwydd llwyddiant y gwasanaeth hwn, rhagwelir y bydd yn parhau ar gyfer y dyfodol.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Adnoddau archwiliad rheoli heintiau a thafleuni crynhoi
- Adroddiad archwiliad rheoli heintiau blynyddol
- Gweithdrefn Safonol ar gyfer COVID-19
- Cynllun gweithredu i atal a rheoli heintiau
- Gweithdrefnau a holiaduron asesu cyn derbyn a chyn ymweld â'r cartref (penodol ar

gyfer COVID-19)

- Gweithdrefnau profion llif unffordd
- Cofnod o gymwyseddau profion llif unffordd i'r staff
- Aseiad o brofion llif unffordd a dogfen gydsynio i ymwelwyr
- Dogfen hunan-brofion llif unffordd i'r staff
- Gweithdrefn Safonol ar gyfer Gofal mewn Argyfwng (penodol ar gyfer COVID-19)
- Gweithdrefn Safonol ar gyfer Gofal Seibiant mewn Argyfwng yn y Cartref (penodol ar gyfer COVID-19)
- Gweithdrefn Safonol ar reoli golchi dillad
- Siart llif Cynnal Bywyd Uwch Pediatrig (penodol ar gyfer COVID-19)
- Llwybr aseiad risg PPE
- Diweddariadau ar PPE i'r staff
- Canllawiau i'r staff ar dderbyn cleifion
- Gweithdrefn Safonol ar ymweliadau cymorth gan frodyr a chwiorydd (penodol ar gyfer COVID-19)
- Gweithdrefn Safonol ar yr Ystafell Pluen Eira (penodol ar gyfer COVID-19)
- Gweithdrefn Safonol ar Gadw Pellter Cymdeithasol
- Gweithdrefn Safonol ar ofal cam-i-lawr o'r ysbyty (penodol ar gyfer COVID-19)
- Canllawiau i Nyrsys Dan Hyfforddiant (penodol ar gyfer COVID-19)
- Gweithdrefn Safonol ar reoli gwastraff

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw achosion a gadarnhawyd o COVID-19 ymhlith y staff na'r grŵp cleifion ar hyn o bryd.

Cawsom gopiâu o adroddiadau archwilio atal a rheoli heintiau mewnol ac allanol a oedd yn dangos cyfraddau cydymffurfio da iawn.

Cawsom gopiâu hefyd o'r polisiâu sydd ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau, a oedd yn cynnwys canllawiau penodol ar gyfer COVID-19 a gweithdrefnau safonol. Gwelsom fod y rhain yn gynhwysfawr ac yn adlewyrchu'r canllawiau cenedlaethol diweddaraf ynghylch COVID-19. Yn ogystal â hyn, mae aseiad risg penodol ar gyfer COVID-19 ar waith i sicrhau bod pob agwedd ar yr hosbis yn cydymffurfio â rheolau cadw pellter cymdeithasol i ddiogelu'r staff, y cleifion a pherthnasau.

Gwelsom fod protocolau ar waith i asesu pob claf cyn eu derbyn ac i ddarparu'r lefelau diogelwch cywir i'r cleifion, y staff a'r ymwelwyr.

Mae tîm atal a rheoli heintiau ar waith sy'n cynnwys aelodau o'r tîm gofal a lletygarwch ynghyd ag arweinydd atal a rheoli heintiau a dihalogi dynodedig. Mae'r staff yn yr hosbis yn mynychu cyfarfodydd Cyswllt Atal a Rheoli Heintiau ac yn cael canllawiau a chyngor gan y bwrdd iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Dywedwyd wrthym nad yw'r hosbis yn cael unrhyw broblemau yn cael gafael ar gyfarpar diogelu personol (PPE) a bod nyrsys cyswllt atal a rheoli heintiau wedi cael hyfforddiant ar sut i roi prawf ffitio i'r staff ar gyfer masgiau FFP3.

Mae hyfforddiant ar olchi dwylo a gwisgo/diosg PPE wedi'i ddarparu a chaiff cymwyseddau'r staff eu hasesu'n rheolaidd. Mae hyfforddiant atal a rheoli heintiau cyffredinol a phenodol ar gyfer COVID-19 wedi'i ddarparu i'r staff ynghyd â deunydd ysgrifenedig cefnogol ar ffurf canllawiau a gweithdrefnau safonol.

Cadarnhaodd y Rheolwr Cofrestredig fod digon o PPE ar gael i'r staff, y cleifion ac ymwelwyr, ac y cynhelir archwiliadau rheolaidd er mwyn sicrhau bod lefelau digonol yn cael eu cynnal.

Mae'r staff wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau yn y canllawiau drwy gyfarfodydd rheolaidd a sesiynau holi ac ateb gydag aelodau o'r uwch-dîm rheoli. Yn ogystal, postiwyd diweddariadau rheolaidd, gan gynnwys y Map Ffordd i Adferiad, gan y Prif Swyddog Gweithredol a'r Uwch Reolwyr ar lwyfan mewnol tebyg i'r cyfryngau cymdeithasol y gall y staff edrych arno o bell ac yn y gwaith.

Dywedwyd wrthym fod 95% o'r staff wedi cael dau ddos o frechlyn COVID-19 a bod profion llif unffordd a phrofion Adwaith Cadwynol Polymerasau (PCR) ar gael i'r holl staff a'r ymwelwyr fel y bo'n ofynnol.

Dywedwyd wrthym fod posteri gwybodaeth ac arwyddion ar gael ym mhob rhan o'r hosbis yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gofynnodd AGIC i gynrychiolwyr y gwasanaeth sut roeddent wedi addasu eu gwasanaeth yn sgil effaith COVID-19. Gwnaethom ystyried a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod niferoedd digonol o staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol yn yr hosbis i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Datganiad o Ddiben
- Fframwaith Gweithredol Tŷ Gobaith
- Dogfen Map Ffordd i Adferiad
- Cofnod o ddigwyddiadau
- Gweithdrefnau Safonol ar reoli meddyginiaethau (penodol ar gyfer COVID-19)
- Adroddiad ymchwilio i ddadansoddiad o wraidd y broblem ar gyfer digwyddiadau yn ymwneud â meddyginiaethau
- Canlyniadau'r adolygiad o gwympiadau diweddaraf

-
- Canlyniadau'r archwiliad briwiau pwyso a niwed i feinweoedd diweddaraf
 - Gweithdrefn safonol ar brofedigaeth
 - Cynllun cyfathrebu mewn argyfwng
 - Gweithdrefn Safonol cymorth ymarferol mewn argyfwng i deuluoedd (penodol ar gyfer COVID-19)
 - Siart llif dinistrio meddyginiaeth (penodol ar gyfer COVID-19)
 - Adborth gan deuluoedd
 - Cofrestr Dynodi Risgiau Strategol Lawn
 - Gwerthusiad o Therapi Cerddoriaeth
 - Strategaeth codi arian y pandemig
 - Adroddiadau Gwella Ansawdd / ymweliadau'r Unigolyn Cyfrifol
 - Adroddiad diogelu
 - Data staffio
 - Rhestr arfarnu staff
 - Cofnodion hyfforddiant y staff

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Roedd polisiau a phrosesau'r hosbis er mwyn sicrhau parodrwydd ar gyfer unrhyw argyfwng yn y dyfodol, fel pandemig neu argyfwng arall, yn gynhwysfawr ac yn dangos bod mesurau llywodraethu cryf ar waith i reoli ac adolygu'r pwysau amrywiol ar y gwasanaeth.

Gwnaeth y trafodaethau a gawsom â'r Rheolwr Cofrestredig, yr Unigolyn Cyfrifol a'r Pennaeth Sicrhau Ansawdd bwysleisio bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau priodol a phrosesau uwchgyfeirio ac adrodd yr hosbis. Dywedodd y Rheolwr Cofrestredig wrthym ei fod yn cael cefnogaeth dda gan yr Unigolyn Cyfrifol, a bod cyngor ac arweiniad ar gael yn ôl y gofyn. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r hosbis bob pythefnos ac mae'n gyfrifol am lunio adroddiad Gwella Ansawdd bob chwe mis i adlewyrchu'r canlyniadau archwilio amrywiol a nodi unrhyw gamau gweithredu sy'n ofynnol. Mae aelodau Bwrdd Ymddiriedolwyr yr hosbis hefyd yn ymweld â'r hosbis bob chwe mis ac yn treulio amser yn siarad â'r plant, eu teuluoedd a'r staff. Cafodd yr Unigolyn Cyfrifol ei atgoffa o'r angen i adlewyrchu barn y cleifion, y perthnasau a'r staff yn yr adroddiadau Gwella Ansawdd.

Dywedodd y Rheolwr Cofrestredig wrthym fod digon o staff ar bob sifft sy'n meddu ar y profiad a'r cymhwysedd cywir i ofalu am y cleifion. Esboniodd y Rheolwr Cofrestredig fod staff banc yn cael eu cyflogi i gyflenwi pan fydd prinder staff. Ychwanegodd y Rheolwr Cofrestredig mai ychydig iawn o ddefnydd a wnaed o staff banc yn ddiweddar oherwydd y lefelau preswyllo isel.

Dywedwyd wrthym fod systemau wedi cael eu cyflwyno i ddarparu cymorth ychwanegol i'r staff yn ystod pandemig COVID-19. Dywedwyd bod cyflwyno llwyfan tebyg i'r cyfryngau cymdeithasol wedi bod yn amhrisiadwy wrth sicrhau cymorth ychwanegol i'r staff ac i gyfathrebu'n barhaus â nhw. Mae hyn yn cynnwys tudalen llesiant i'r staff, boreau coffi grŵp rhithwir er mwyn i'r staff gael cyfle i sgwrsio â'i gilydd a sgwrsio â'u rheolwyr, a sesiynau holi ac ateb rhithwir i'r staff ofyn unrhyw gwestiynau, rhannu eu pryderon ac er mwyn i'r uwch-

dîm rheoli roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt. Mae'r rheolwyr a'r tîm Adnoddau Dynol yn cysylltu â'r staff sydd ar ffyrlo neu sy'n ynysu yn rheolaidd a, lle y bo'n briodol, rhoddir proses dychwelyd i'r gwaith yn raddol ar waith gan sicrhau y caiff yr holl ddiweddariadau i ganllawiau a'r anghenion dysgu eu diwallu.

Caiff y staff eu cefnogi o ddydd i ddydd gan y Rheolwr Cofrestredig. Yn ogystal â'r cymorth mwy anffurfiol o ddydd i ddydd, dywedwyd wrthym fod Adolygiadau Arfarnu Perfformiad a Datblygu (PADR) yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Cawsom dystiolaeth ddogfennol o gyfraddau cwblhau PADR, sy'n dangos cydymffurfiaeth dda iawn. Y Rheolwr Cofrestredig sy'n darparu staff cyflenwi ar alw o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac mae'r gwaith o sicrhau bod staff cyflenwi ar alw ar gael ar benwythnosau'n cael ei rannu rhwng y dirprwy benaethiaid gofal a'r uwch nyrsys. Cynhelir cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol wythnosol, sy'n cynnwys nyrsys, gweithwyr cymorth gofal iechyd, ffisiotherapydd a gweithiwr cymdeithasol. Mae sesiynau dadfriffio a goruchwyliaeth glinigol ar gael i'r staff ac maent yn cynnig amser i fyfyrwyr a dysgu.

Gwelsom fod y staff yn cael eu cefnogi i fynychu hyfforddiant. Dywedwyd wrthym fod pecyn e-ddysgu wedi'i deilwra i'r hosbis i blant wedi'i brynu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol. Mae llwyfan cyfryngau cymdeithasol y sefydliad hefyd yn hwyluso cyrsiau hyfforddiant mewnol fel codi a chario, tân a defnyddio ocsigen yn ddiogel. Caiff unrhyw ddiweddariadau neu newidiadau i'r canllawiau eu cyfleu hefyd i'r staff sy'n defnyddio'r llwyfan hwn. Mae hyfforddiant wyneb yn wyneb wedi'i ailgyflwyno'n ddiweddar i grwpiau bach ac yn dibynnu ar y cyrsiau sydd ar gael, mewn pynciau fel hyfforddiant ar Gynnal Bywyd Canolraddol Pediatrig, gofal traceostomi a dyfais chwistrellu.

Gwelsom fod prosesau cadarn ar waith i reoli a rhoi gwybod am unrhyw ddamweiniau, digwyddiadau neu faterion diogelu. Dywedwyd wrthym fod yr holl ddigwyddiadau a damweiniau yn cael eu hadrodd yn agored ac yr ymchwilir iddynt yn brydlon. Caiff unrhyw wersi o'r digwyddiadau eu rhannu â'r staff. O ran diogelu, mae proses adrodd gadarn ar waith a chynhelir cyfarfodydd wythnosol â phob pennaeth adran i rannu unrhyw bryderon diogelu ac i drafod unrhyw ddigwyddiadau. Trafodir digwyddiadau hefyd yn y cyfarfodydd lechyd a Diogelwch/Rheoli Meddyginiaethau ac adroddir arnynt yn chwarterol i'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol. Adroddir ar unrhyw ddigwyddiadau yn ymwneud â chyffuriau a reolir yn chwarterol i'r Rhwydwaith Gwybodaeth Leol ar Gyffuriau a Reolir.

Caiff unrhyw newidiadau i arferion, polisiâu neu weithdrefnau newydd/wedi'u diweddarau eu rhannu/cyfleu ar 'weithle' llwyfan rhithwir y gall y staff ei ddefnyddio o bell ac yn y gwaith; mae pob polisi ar gael ar y gweithle hwn.

Dywedodd y Rheolwr Cofrestredig wrthym fod tua hanner y staff sy'n gweithio yn Tŷ Gobaith yn gallu siarad Cymraeg ac y gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y plant a'u teuluoedd yn cael siarad yn eu dewis iaith. Mae gwefan yr hosbis yn ddwyieithog ac mae'r arwyddion yn yr hosbis yn ddwyieithog hefyd. Ychwanegodd y Rheolwr Cofrestredig fod mesurau wedi'u rhoi ar waith i fynd ati i ddatblygu'r ddarpariaeth Gymraeg drwy gyfieithu dogfennaeth gefnogol fel taflenni a deunydd ysgrifenedig arall.

Pwysleisiodd y Rheolwr Cofrestredig fod dewis a chydsynio yn sail i bob agwedd ar ofal yn Tŷ Gobaith ac y caiff amser ei dreulio yn cadarnhau barn y plentyn/person ifanc a'r teulu a'u dymuniadau ar gyfer triniaeth os bydd cyflwr y plentyn/person ifanc yn gwaethygu'n sydyn. Mae'r teuluoedd yn diwygio ac yn diweddarau'r cynlluniau gofal bob tro y maent yn ymweld â'r hosbis. Mae Polisi Cydsynio, sy'n cynnwys arweiniad ar egwyddorion y Ddeddf Galluedd Meddyliol, ar waith ac yn destun adolygiad rheolaidd. Caiff gwahaniaethau diwylliannol a chredoau ysbrydol eu parchu ac mae gan yr hosbis adnoddau a chysylltiadau i gynorthwyo'r tîm gofal i ddarparu gofal yn y ffordd fwyaf priodol.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws ardaloedd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynnwys cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad yn crynhoi'r gwiriad ansawdd a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.